# Datganiad Preifatrwydd - Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynghylch sut mae'n casglu ac yn defnyddio data personol ac i gyflawni ei rhwymedigaethau diogelu data.

## Pa wybodaeth amdanoch chi ydym ni'n ei chadw?

- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Adran
- Lefel sgiliau iaith Gymraeg (staff)
- Manylion hyfforddiant Cymraeg (staff)
- Manylion unrhyw addasiadau sydd eu hangen ar gyfer arholiadau
- Cwynion ynghylch Safonau'r Gymraeg

## Dyma sut a pham yr ydyn ni'n casglu gwybodaeth bersonol amdanoch

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol a broseswn yn cael ei roi i ni'n uniongyrchol gennych chi am un o'r rhesymau canlynol :

- Ceisiadau cyfieithu Cymraeg (Staff)
- Ceisiadau hyfforddi Cymraeg (Staff)
- Cwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg y Brifysgol
- Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg (Staff / Myfyrwyr)
- Sgiliau academaidd [Cyfrwng Cymraeg] (Myfyrwyr)
- Arholiadau yn y Gymraeg (Myfyrwyr)

Darperir data i Swyddogion Cangen Prifysgol Aberystwyth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol  Gweler Hysbysiad Preifatrwydd y Coleg Cymraeg am ragor o fanylion.

Mae Adnoddau Dynol yn darparu rhestr o'r rhai a benodir (Staff) i swyddi Prifysgol Aberystwyth (PA) bob chwarter yn nodi lefel sgiliau Cymraeg at ddibenion monitro yn unol â'n Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a'n Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg.

## Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Ceisiadau Cyfieithu

Bydd manylion cyswllt gan gynnwys enw, cyfeiriad e-bost PA, adran a rhif ffôn yn cael eu casglu a'u defnyddio i gysylltu ag aelodau'r staff ynglŷn â'u ceisiadau cyfieithu, a gyflwynir drwy e-bost neu ffurflen ar-lein.

Cedwir cyfieithiadau ysgrifenedig am gyfnod o **5 mlynedd** ar ôl eu cwblhau.

Cwynion

Bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (CGG) ddim ond yn rhannu (yn fewnol i Brifysgol Aberystwyth) enwau achwynwyr pan fo angen. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys rhannu'r wybodaeth a gyflwynir i'r Ganolfan gyda'r adran neu'r gwasanaeth a fethodd â

chydymffurfio â'r Safonau.  Bydd hefyd yn cael ei gynnwys (ar ffurf ddienw) yn yr adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd cwynion yn cael eu cadw am gyfnod o **5 mlynedd**

Data Sgiliau Iaith Gymraeg Staff
Bydd data sgiliau iaith staff dienw yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Gall data sgiliau iaith Cymraeg staff dienw ar lefel adrannol hefyd gael ei rannu gyda Phennaeth yr Adran neu Reolwr y Gyfadran berthnasol. Adroddir ar sgiliau Iaith Gymraeg staff yn ddienw i Grŵp Gweithredol y Gymraeg at ddibenion monitro.

Ceisiadau Hyfforddiant Cymraeg Staff
Mae gan bob aelod o staff hawl i fynychu gwersi Cymraeg a ddarperir gan Dysgu Cymraeg a bydd y Brifysgol yn talu amdanynt. Defnyddir ffurflen ffioedd dysgu Cymraeg i gofnodi taliadau am y cyrsiau ac i gadw cofnodion blynyddol.
Gallwn gyfathrebu manylion ceisiadau hyfforddiant Cymraeg unigol (staff) gyda'r rheolwyr llinell. Bydd data dienw ar hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg y Brifysgol. Bydd ffurflenni cais yn cael eu cadw am gyfnod o 5 mlynedd.

Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg
Gweler Hysbysiad Preifatrwydd y Coleg Cymraeg
Defnyddir manylion am yr addasiadau sydd eu hangen ar gyfer arholiadau ysgrifenedig/llafar i sicrhau bod addasiadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer ymgeiswyr sydd eu hangen.

Swyddogion Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Defnyddir manylion sgiliau iaith Gymraeg a dewis iaith o'r system cofnodion myfyrwyr i gysylltu â myfyrwyr, e.e. ynghylch arholiadau yn Gymraeg. Caiff manylion myfyrwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg eu cyfleu i adrannau academaidd i neilltuo tiwtoriaid personol sy'n siarad Cymraeg yn unol â gofyniad Safonau'r Gymraeg (safon 93).

Sgiliau Academaidd (Cyfrwng Cymraeg)
Defnyddir cyfeiriadau e-bost myfyrwyr ar gyfer hunan gofrestri ar Blackboard neu i staff ychwanegu myfyrwyr at Blackboard.

Arholiadau'n Gymraeg
Byddwn yn hysbysu'r adrannau perthnasol o unrhyw geisiadau a gawn gan fyfyrwyr ar gyfer papurau arholiad Cymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg.

## Seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth.

- Cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 (Erthygl 6(1)(c) GDPR y DU)
- Cyflwyno'r ddarpariaeth Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg (Coleg Cymraeg Cenedlaethol). (Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU)

## Pwy allai dderbyn eich gwybodaeth?

Cwynion/Ymholiadau
Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth mewn perthynas â chwynion neu ymholiadau gydag adrannau neu wasanaethau perthnasol.

Ceisiadau Cyfieithu
- Cyfieithwyr Mewnol, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg, Ysgrifenyddes y Ganolfan
- Cyfieithwyr allanol a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan.

Arholiadau yn Gymraeg
Byddwn yn hysbysu'r adrannau perthnasol o'r ceisiadau a dderbyniwyd gan fyfyrwyr i dderbyn papurau arholiad Cymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg.

Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg
Hysbysiad Preifatrwydd y Coleg Cymraeg

Sgiliau Iaith Gymraeg Myfyrwyr
Yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr y Brifysgol, bydd manylion sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cyfleu i adrannau academaidd.

## Ein dull o gadw gwybodaeth bersonol

Caiff eich gwybodaeth ei storio'n ddiogel ar weinydd y Brifysgol.
Byddwn yn cadw eich data personol am y cyfnodau amser a grybwyllir uchod ac yna byddwn yn tynnu eich data personol o'n cofnodion electronig ac yn dinistrio unrhyw gopïau papur yn ddiogel.

## Eich hawliau yng nghyswllt diogelu data

O dan y Ddeddf Diogelu Data, mae gennych hawliau sy'n cynnwys:

**Hawl i weld yr wybodaeth** - Mae gennych hawl i ofyn i gael gweld copïau o'r wybodaeth bersonol amdanoch.
**Hawl i gywiro'r wybodaeth** - Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro'r wybodaeth bersonol amdanoch os credwch ei bod yn anghywir. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni gwblhau'r wybodaeth os credwch ei bod yn anghyflawn.
**Hawl i gyfyngu prosesu'r wybodaeth** - Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu prosesu'r wybodaeth bersonol amdanoch mewn rhai amgylchiadau.
**Hawl i wrthwynebu prosesu'r wybodaeth** - Mae gennych hawl i wrthwynebu i'r wybodaeth bersonol amdanoch gael ei brosesu mewn rhai amgylchiadau.

Nid oes rhaid i chi wneud unrhyw daliad am arfer eich hawliau. Os gwnewch gais, mae gennym fis i ymateb ichi.

Cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, llywodraethugwyb@aber.ac.uk os ydych yn dymuno gwneud cais.

Os credwch nad yw'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn llywodraethugwyb@aber.ac.uk .

Os ydych dal yn anhapus gyda sut rydym wedi defnyddio'ch data gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.